Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# **Cywain y cynhaeaf:** Cefnogi diwydiant prosesu bwyd Cymru

Ionawr 2026



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddEconomi**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddEconomi@senedd.cymru**
X: **@SeneddEconomi**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# **Cywain y cynhaeaf:** Cefnogi diwydiant prosesu bwyd Cymru

Ionawr 2026

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddEconomi**

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Andrew RT Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Hannah Blythyn AS**
Llafur Cymru



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**Luke Fletcher AS**
Plaid Cymru



**Samuel Kurtz AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Jenny Rathbone AS**
Llafur Cymru

Roedd Hefin David AS yn Aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn. Gyda thristwch mawr, bu farw ar 12 Awst 2025.



**Hefin David AS**
Llafur Cymru

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Rhun ap Iorwerth AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** .......... **5**

**Argymhellion** .......... **7**

**1. Y cefndir** .......... **9**

Diwydiant bwyd a diod Cymru .......... 10

**2. Strategaeth Llywodraeth Cymru** .......... **12**

Gweledigaeth ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod .......... 12

Strategaeth Bwyd Cymunedol .......... 16

Ein barn ni .......... 18

**3. Cig Coch** .......... **20**

Ein barn ni .......... 25

**4. Garddwriaeth** .......... **27**

Ein barn ni .......... 29

**5. Bwyd y môr** .......... **31**

Ein barn ni .......... 32

**6. Cymorth i fusnesau** .......... **33**

Ein barn ni .......... 39

**7. Caffael bwyd cyhoeddus** .......... **42**

Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 .......... 46

Ein barn ni .......... 47

**Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar** .......... **49**

**Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** .......... **51**

# Rhagair y Cadeirydd

Mae ‘na reswm pam mai’r Neuadd Fwyd yw un o’r mannau prysuraf bob amser yn y Sioe Fawr. Yng Nghymru, ry’n ni’n gwneud bwyd rhagorol. Boed Halen Môn neu gig oen morfa heli Gŵyr, eirin Dinbych neu gaws Caerffili, mae sector bwyd Cymru yn rhywbeth y gallwn ni deimlo’n wirioneddol falch amdani. Mae’n gryn fusnes, hefyd. Mae bron i un o bob pump o swyddi Cymru yn y gadwyn gyflenwi bwyd a diod, ac mae’r sector yn cynhyrchu tua £7 biliwn o Werth Ychwanegol Gros y flwyddyn.

Fodd bynnag, gyda’r gefnogaeth gywir gan y Llywodraeth, gallai’r diwydiant gyflawni hyd yn oed yn fwy. Fel arfer, prosesu yw’r hyn sy’n ychwanegu’r gwerth mwyaf at gynnyrch bwyd, ac mae sector prosesu bwyd gref yn cefnogi cadwyni cyflenwi lleol cadarn, gan ganiatáu i bobl fwynhau’r bwyd arbennig sy’n cael ei gynhyrchu yn eu hardal leol.

Mae’r adroddiad hwn yn nodi gweledigaeth ar gyfer diwydiant prosesu bwyd Cymru fel un sy’n wydn, yn gynaliadwy ac yn ffynnu. Er mwyn cyflawni’r nod hwn, mae gyda ni chwe argymhelliad y bydd, yn ein barn ni, yn helpu i greu swyddi a’u diogelu, cynyddu’r Gwerth Ychwanegol Gros sy’n deillio o’n sector bwyd, ac adeiladu cadwyni cyflenwi lleol cryf.

Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru fabwysiadu dull cydlynol o ymdrin â’r system fwyd. Er mwyn gwneud hynny, mae’n rhaid iddi greu strategaeth gyffredinol a chyfannol ar gyfer y system fwyd gyfan, alinio polisi bwyd y Llywodraeth, cefnogi’r sector prosesu bwyd, a blaenoriaethu cynaliadwyedd a diogelwch bwyd. Er bod cynllunio strategol yn hanfodol, mae’n rhaid iddo hefyd fynd i’r afael â heriau penodol i’r sector, megis y gostyngiad mewn da byw, a’r cyfleoedd ym maes garddwriaeth, gan sicrhau bod polisi yn ymatebol i’r realiti y mae cynhyrchwyr a phroseswyr fel ei gilydd yn ei wynebu.

Clywsom sut y gallai’r gostyngiad yn niferoedd da byw Cymru fygwth hyfywedd ein lladd-dai. Mae’n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn archwilio sut y gallwn osgoi dadstocio ffermydd Cymru tra’n mewnforio cig o ansawdd isel, sy’n is o ran llesiant ac yn uwch o ran carbon.

Fodd bynnag, clywsom hefyd am y cyfleoedd sylweddol ar gyfer tyfu ein sector garddwriaeth, rhywbeth y gallai hefyd gefnogi gwydnwch a chynaliadwyedd. Gan mai da byw sy’n dominyddu ffermio yng Nghymru, mae’r systemau a’r seilwaith yn canolbwyntio’n bennaf ar gefnogi’r rhan honno o’r diwydiant. Yn sgil hynny, fe

fydd angen i Lywodraeth nesaf Cymru gefnogi garddwriaeth yn benodol, drwy ddatblygu sgiliau i wireddu'r cyfleoedd hynny, er enghraifft.

Bydd cefnogaeth i fusnesau, hefyd, yn rhan hanfodol o hyrwyddo ein diwydiant bwyd. I'r perwyl hwn, mae gyda ni argymhellion i gefnogi enillwyr, mynd i'r afael â methiannau'r farchnad a meithrin twf busnesau micro a chanolig eu maint.

Hoffwn ddiolch i bawb a wnaeth roi o'u hamser i gynnig tystiolaeth i'r ymchwiliad hwn.



**Andrew RT Davies AS**
Cadeirydd

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru gydlynu ei dull o ran y system fwyd drwy sicrhau bod polisïau'n gydgysylltiedig, ac yn ategu ei gilydd. Rhaid i hyn sicrhau bod y sector prosesu bwyd yn cael ei chefnogi i helpu busnesau i dyfu, a sicrhau y gall darparwyr Cymru wasanaethu marchnad Cymru. I wneud hyn, rhaid iddynt greu strategaeth gyffredinol a chyfannol ar gyfer y system fwyd gyfan a gynlluniwyd i gefnogi amcanion y Weledigaeth ac alinio polisi bwyd y Llywodraeth, hyrwyddo'r sector prosesu bwyd, a blaenoriaethu cynaliadwyedd a diogelwch bwyd. .......... Tudalen 19

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ystyried sut y gall gefnogi lladd-dai a chynhyrchwyr bwyd Cymru i sicrhau y gellir gweini cig Cymru sy'n gymharol garbon isel ar blatiau Cymru, er mwyn osgoi dadstocio ffermydd Cymru, ond mewnforio cig o ansawdd is, llesiant is a charbon uwch. Dylent roi cryn ystyriaeth i ddwysedd stocio ffermydd da byw Cymru, ac ystyried cyflwyno cynllun 'y pen' tebyg i Gynllun Cymorth Gwartheg Sugno yr Alban. .......... Tudalen 26

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu targed uchelgeisiol Cynghrair Polisi Bwyd Cymru, sef bod 75% o lysiau a fwyteir yng Nghymru yn cael eu cynhyrchu yma, ac yn gynaliadwy. I gyflawni hyn, rhaid i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mewn busnesau garddwriaethol, cefnogi datblygiad sgiliau garddwriaethol a gwneud ymdrech benodol i wella seilwaith prosesu bwyd garddwriaethol. .......... Tudalen 30

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi unrhyw waith y mae wedi'i wneud i gefnogi diwydiant prosesu bwyd y môr o Gymru, ac i annog bwyta bwyd y môr o Gymru ar lefel ddomestig. .......... Tudalen 32

**Argymhelliad 5.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ganddi gynllun strategol i sicrhau bod yna ddull "tîm Cymru" rhwng cynhyrchwyr, proseswyr, manwerthwyr a lletygarwch, a bod prosesu bwyd yn cael cefnogaeth gadarn a chaniatâd i chwarae ei rôl hanfodol yn yr economi sylfaenol. Fel rhan allweddol o'r gwaith hwn, dylid archwilio sut y gallant lenwi'r bwlch 'canol coll' mewn cynhyrchu bwyd yng Nghymru, ac annog ein microfusnesau rhagorol i dyfu. Fel rhan o'r gwaith hwn, dylai wneud y canlynol:

- Archwilio pa wersi y gellir eu dysgu o'r dull Gwyddelig a nodir yn Food Harvest 2020 ac o ddewis enillwyr;

- datblygu rhaglenni i helpu busnesau prosesu bwyd i uwchsgilio eu gweithwyr, ac i ganiatáu i bobl ddysgu sgiliau prosesu bwyd arloesol neu rai nad ydynt yn cael eu defnyddio i raddau digonol, er mwyn llenwi bylchau ym marchnad prosesu bwyd Cymru;

- adolygu'r seilwaith prosesu bwyd a gynigir ledled Cymru, nodi bylchau a llunio cynllun ar gyfer eu llenwi, er mwyn cryfhau cadwyni cyflenwi lleol a chynnal Gwerth Ychwanegol gros; a hefyd

- ystyried sut y gall fynd i'r afael â'r methiant yn y farchnad a berir gan brisiau eiddo cymharol is, sy'n ei gwneud hi'n anoddach i lawer o fusnesau Cymru gael mynediad at fenthyciadau yn erbyn buddsoddiad cyfalaf yn y sector prosesu bwyd. ........ Tudalen 40

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru ehangu cynlluniau llwyddiannus sy'n cefnogi caffael cyhoeddus, ac yn integreiddio prynwyr y sector cyhoeddus i gadwyni cyflenwi lleol, er mwyn gwireddu amcanion Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)........Tudalen 48

# 1. Y cefndir

Yn ôl gwerthusiad economaidd diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer sector bwyd a diod Cymru (2024), roedd y gadwyn gyflenwi bwyd a diod yn cyflogi 223,500 o bobl yn 2023 (17 y cant o gyfanswm gweithlu Cymru). Yn 2022 creodd y sector Werth Ychwanegol Gros (GVA) o £7.0bn.[1]

**1.** Yng ngwanwyn 2025, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i brosesu bwyd.

**2.** Nod y cylch gorchwyl oedd ystyried y canlynol:

- Perfformiad Llywodraeth Cymru o ran cyflawni yn erbyn yr amcanion yn ei Gweledigaeth ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod;
- a yw'r amcanion yn y Weledigaeth ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod yn parhau i fod yn addas i'r diben neu a ddylid eu hadolygu;
- yr effaith y mae gostyngiad yn nifer y da byw yn ei chael ar allu'r sector prosesu i ychwanegu gwerth at gynnyrch Cymru;
- yr hyn y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i gefnogi'r sector prosesu ymhellach i gynyddu gwerth ychwanegol ar gyfer cynhyrchion bwyd yng Nghymru, yn enwedig ar gyfer y sectorau cig coch, llaeth a garddwriaeth; a hefyd
- y rhwystrau i gynyddu faint o fwyd sy'n cael ei brosesu yng Nghymru sy'n cael ei gaffael gan y sector cyhoeddus.

**3.** Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 13 Mai i 24 Mehefin 2025, a daeth 13 o ymatebion i law. Cynhaliwyd sesiynau tystiolaeth lafar rhwng mis Mehefin a mis Medi 2025 gyda thystion, gan gynnwys busnesau prosesu

[1] Busnes Cymru: Gwerthusiad Economaidd: Sector Bwyd a Diod Cymru; Nid yw'r ffigurau Gwerth Ychwanegol Gros wedi'u cyhoeddi ar gyfer 2023, gan fod y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi nodi problemau yn y system y mae'n ei defnyddio i gasglu a phrosesu'r arolwg y maent yn cael eu tynnu ohono.

bwyd, academyddion ac awdurdodau lleol. Cynhaliodd y Pwyllgor drafodaeth ford gron gyda rhanddeiliaid yn Sioe Frenhinol Cymru ar 21 Gorffennaf 2025. Cynhaliwyd sesiwn dystiolaeth olaf gyda'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ("y Dirprwy Brif Weinidog") ar 24 Medi 2025.[2] Mae rhagor o wybodaeth am y dystiolaeth a gafwyd ar gael yn yr Atodiadau.

**4.** Mae'r Pwyllgor yn siomedig gan y diffyg ymgysylltiad gan fanwerthwyr yn ystod yr ymchwiliad hwn. Manwerthu yw'r porth at y defnyddiwr, a byddai eu mewnbwn wedi bod yn amhrisiadwy. Gwaetha'r modd, er iddyn nhw gael eu gwahodd, nid oedd Consortiwm Manwerthu Cymru nac unrhyw un o'r archfarchnadoedd mawr ar gael i roi tystiolaeth fel rhan o'r ymchwiliad hwn; mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod hyn yn creu diffyg yn yr adroddiad.

## Diwydiant bwyd a diod Cymru

**5.** Mae Llywodraeth Cymru yn disgrifio'r diwydiant bwyd a diod fel "conglfaen i economi Cymru".[3] Mae ei werthusiad economaidd yn dangos y canlynol:

- Bu cynnydd o 7% yn nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi gan y gadwyn gyflenwi bwyd a diod (40,000 o bobl yn 2023)(37,500 oedd y nifer yn 2022);
- yn 2024, bu cynnydd yn y sector o'i gymharu â 2023, gyda throsiant yn cynyddu £945m (10%) o £9.3bn i £10.2bn;
- cynyddodd allforion yn 2024 o'i gymharu â 2023, gan godi o £813m i £839m, cynnydd o 3% (£26m);
- pennwyd bod 73% o'r unedau busnes yn y sector yn rhai micro yn 2024, 2% yn llai nag yn 2023. Mae hyn yn debyg i wledydd eraill y DU, (75% yn Lloegr, 70% yng Ngogledd Iwerddon a 67% yn yr Alban);
- y cyflog canolrifol ar gyfer y sector yng Nghymru oedd £26,418 yn 2024, gostyngiad o £125 (0.5%), o'i gymharu â 2023; a hefyd
- fel y soniwyd uchod, nid oes ffigurau diweddaredig Gwerth Ychwanegol Gros ar gael. Fodd bynnag, roedd cynnydd o 13 y cant yn y sector i £7bn yn 2022, o'i gymharu â £6.2bn yn 2021.[4]

[2] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Medi 2025
[3] Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru, Medi 2025
[4] Busnes Cymru: Gwerthusiad Economaidd: Sector Bwyd a Diod Cymru

**6.** Mae cadwyn gyflenwi bwyd a diod Cymru yn cynnwys gweithgynhyrchu a phecynnu cysylltiedig, amaethyddiaeth a physgota, manwerthu a chyfanwerthu, ac arlwyo dibreswyl.

# 2. Strategaeth Llywodraeth Cymru

## Gweledigaeth ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod

**7.** Cyhoeddwyd Gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod ("y Weledigaeth") ym mis Tachwedd 2021.[5] Mae ei nod fel a ganlyn:

- Sicrhau cadwyn gyflenwi sy'n amgylcheddol ac yn gymdeithasol gyfrifol ac sydd ag enw da yn rhyngwladol am ragoriaeth; a hefyd
- tyfu'r diwydiant ar gyfradd uwch yn gymesur â gweddill y DU.

**8.** Mae'r Weledigaeth yn cynnwys chwe amcan lefel uchel, y mae'n eu disgrifio fel 'mesurau llwyddiant allweddol':

- Twf. Bob blwyddyn, bydd gwerth trosiant sector sylfaen bwyd Cymru yn tyfu'n gymesur yn fwy na gweddill y DU, ac i o leiaf £8.5bn erbyn 2025.
- Cynhyrchedd. Bydd cyfartaledd tair blynedd y Gwerth Ychwanegol Gros yr awr a weithir yn sector sylfaen bwyd Cymru'n cynyddu'n gymesur yn fwy na gweddill y DU.
- Gwaith Teg. Bob blwyddyn, bydd cyfran y gweithwyr yn sector sylfaen bwyd Cymru sy'n derbyn o leiaf y Cyflog Byw Gwirioneddol yn cynyddu, i gyrraedd 80 y cant erbyn 2025.
- Achrediad. Bob blwyddyn, bydd cynnydd yng nghyfran y busnesau gweithgynhyrchu a phrosesu bwyd a diod sydd ag achrediad (e.e. rheoli amgylcheddol, datblygu staff, cynhyrchu a safonau perthnasol eraill).
- Dyfarniadau. Bob blwyddyn, bydd cynnydd yng nghyfran y busnesau yn y sector gweithgynhyrchu a phrosesu bwyd a diod sy'n cyflawni dyfarniadau sy'n briodol i'w busnes. Erbyn 2025, bydd o leiaf chwe chynnyrch Cymreig arall yn ymuno â Chynllun Dynodiad Daearyddol y DU.
- Hylendid. Bydd gan 98% o fusnesau gweithgynhyrchu a phrosesu bwyd a diod sgôr hylendid bwyd o 5 erbyn 2025.

[5] Bwyd a Diod Cymru: Gweledigaeth ar gyfer y diwydiant Bwyd a Diod o 2021, Tachwedd 2021

**9.** Mae'r Weledigaeth yn nodi y bydd cynnydd yn cael ei fesur a'i gyhoeddi ar wefan Bwyd a Diod Cymru.[6]

**10.** Mae'r Weledigaeth yn canolbwyntio ar y diwydiant bwyd, gan gynnwys gweithgynhyrchu a phrosesu bwyd, ond cafwyd galwadau diweddar am strategaeth fwy cyffredinol ar gyfer y system fwyd gyfan, gan gynnwys gan Peter Fox AS yn ei Fil Bwyd (Cymru) ("y Bil"),[7] adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor hwn ar y Bil,[8] a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei strategaeth i Gymru 2023-2030.[9]

**11.** Mae Llywodraeth Cymru wedi gwrthod y galwadau hyn, gan ddweud bod ganddi ddull strategol eisoes gan gynnwys y targedau a'r dangosyddion cynnydd a grybwyllir uchod, ac os nodir bylchau, bydd polisïau newydd yn cael eu llunio.

**12.** Er i Fil Bwyd (Cymru) syrthio yn y pen draw ac na ddaeth yn gyfraith, arweiniodd y drafodaeth yn ei gylch at Lywodraeth Cymru yn cyhoeddi Materion Bwyd: Cymru ym mis Gorffennaf 2024, sy'n crynhoi polisïau bwyd Llywodraeth Cymru ar draws ei phortffolios.[10]

**13.** Clywodd y Pwyllgor safbwyntiau cymysg am lwyddiant a pherthnasedd y Weledigaeth. Cytunodd Puffin Produce a Ffederasiwn Bwyd a Diod Cymru fod y Weledigaeth yn 'addas at y diben'. Dywedodd Ffederasiwn Bwyd a Diod Cymru y canlynol wrth y Pwyllgor:

> *"It's been a success story: the Welsh food and drink industry has grown; gross value added has grown. It's a good set of results, given the headwinds we had with Brexit and COVID during the period of this study."*[11]

**14.** Awgrymodd sawl tyst y gallai'r Weledigaeth wneud mwy o ran cynaliadwyedd. Tynnodd y Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad, a Chynghrair Polisi Bwyd Cymru, sylw at gyflawniadau o ran targedau twf ac economaidd ond 'diffygion' mewn amcanion cymdeithasol ac amgylcheddol, a phrosesau gwerthuso. Ychwanegodd FCF Cymru y canlynol:

---

[6] Busnes Cymru: Bwyd a Diod Cymru, Mesur ein llwyddiant yn hyn o beth
[7] Senedd Cymru, Bil Bwyd (Cymru)
[8] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Bil Bwyd (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1, Mai 2023
[9] Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Cymru Can
[10] Llywodraeth Cymru, Bwyd o Bwys: Cymru, Gorffennaf 2024
[11] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 13

> *"The current Vision objectives require fundamental revision to align with Wales' net zero commitments and the climate emergency."*[12]

**15.** Disgrifiodd Soil Association Cymru y Weledigaeth fel un 'ganmoladwy', ond dywedodd y canlynol:

> *"… the relationship and potential tension between the underpinning goals for growth and productivity ('our food sector will grow faster than in the rest of the UK') and for sustainability ('we will reach for the highest levels of environmental sustainability') is not sufficiently explored or resolved in the vision."*[13]

**16.** Awgrymodd Undeb Amaethwyr Cymru y dylid ychwanegu dau gam gweithredu:

> *"to improve the processing capacity in Wales to retain circularity and brand potential, and to increase the proportion of Welsh produce used by Welsh processors, retailers and manufacturers."*[14]

**17.** Dywedodd y comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad wrth y Pwyllgor fod gwahaniaeth rhwng polisi Llywodraeth Cymru cyn giât y fferm, ac ar ôl giât y fferm. Mae'r cyntaf yn seiliedig ar dyfu, ond y farn am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd yw nad cynhyrchu bwyd cynradd yw'r prif amcan. Fe wnaethon nhw rybuddio bod perygl o weld rhywfaint o wahaniaeth, os byddwn yn parhau ar hyd y llwybr hwn, sef cynllun ffermio cynaliadwy sy'n mynd i un cyfeiriad o ran cyflenwi deunyddiau crai, i'r sector prosesu, a sector bwyd a diod ar ôl giât y fferm sy'n parhau i ddilyn yr un metrig twf hwnnw.[15]

**18.** Fe wnaeth yr Association of Independent Meat Suppliers ("AIMS"), Hybu Cig Cymru a'r British Meat Processors' Association ("BMPA") oll godi bryderon ynghylch a oedd y Weledigaeth yn cyflawni, ac roedd ganddynt bryderon penodol ynghylch y gostyngiad yn niferoedd da byw. Nododd Hybu Cig Cymru, er bod y ffigurau crai yn awgrymu bod y Weledigaeth wedi bod yn llwyddiant, bod cwestiwn ynghylch

---

[12] Tystiolaeth ysgrifenedig: Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad a Chynghrair Polisi Bwyd Cymru (Saesneg yn unig)
[13] Tystiolaeth ysgrifenedig, Soil Association Cymru (Saesneg yn unig)
[14] Tystiolaeth ysgrifenedig, Undeb Amaethwyr Cymru (Saesneg yn unig)
[15] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 8

beth yw'r mesuriad cywir y dylem fod yn ei ddefnyddio i fesur y llwyddiant hwnnw.[16]

**19.** Awgrymodd CFfI Cymru, er bod amcanion y Weledigaeth yn parhau i fod yn berthnasol, yn fras, y dylid eu diweddaru i adlewyrchu'r angen i gadw pobl ifanc, defnyddio manteision arloesedd a sgiliau digidol, a chefnogi cadwyni cyflenwi lleol i gefnogi'r genhedlaeth iau i ddatblygu busnesau hyfyw a ffyniannus.[17]

**20.** Awgrymodd Foundational Economy Research Limited ("FERL") nad oedd gan Lywodraeth Cymru y dulliau polisi i gyflawni'r canlyniadau dymunol, ac ym maes prosesu bwyd nid oes yr un o'r amcanion twf, cynhyrchiant a chyflogau uwch wedi'u cyflawni.

> *"The Vision 2021 broad definition of the food and drink industry further complicates matters because organisation and operating conditions are very different in the various sub-sectors of the industry."*[18]

**21.** Disgrifiodd Dr Robert Bowen o Ysgol Fusnes Caerdydd y nodau ar gyfer y sector fel rhai 'priodol'. Fodd bynnag, tynnodd sylw at ddiffyg strategaeth fwyd i Gymru, a dywedodd fel a ganlyn:

> *"… would give the industry a clearer direction and can bring various stakeholders on board to address many of the challenges in the sector and ensure that there is a strategy for growing the sector, supporting the development of skills and resources required to achieve this growth, promote internationalisation, and also to ensure that the food and drink sector works alongside other relevant sectors in Wales, such as Tourism and Hospitality, as there is a need to ensure that Welsh food products can play an important part in the tourism and hospitality offering of Wales."*[19]

**22.** Cytunodd y Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad y byddai angen strategaeth fwyd draws-Gabinet gyfannol ar gyfer newid system fwyd gyfan.[20]

---

[16] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 2 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 15
[17] Tystiolaeth ysgrifenedig, CFfI Cymru (Saesneg yn unig)
[18] Tystiolaeth ysgrifenedig, Foundational Economy Research Limited (Saesneg yn unig)
[19] Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Robert Bowen, Ysgol Fusnes Caerdydd (Saesneg yn unig)
[20] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 114

Galwodd Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, ac Our Food 1200 am integreiddio bwyd yn well ar draws adrannau'r Llywodraeth, yn ddelfrydol drwy Gynllun Bwyd Cenedlaethol sy'n amddiffyn cenedlaethau'r dyfodol:

> *"Repositioning the vision to acknowledge the now published Community Food Strategy and Future Generation Officer's Cymru Can vision would seem appropriate."*[21]

**23.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog fod y Weledigaeth wedi trosi'n llwyddiant go iawn: llwyddiant ymarferol, pendant, gweithredadwy, dangosadwy,[22] ond cwestiynodd yr angen am strategaeth fwyd gyffredinol:

> *"… what would a document called a strategy add to the sum of those whole parts, when actually, whether it's in terms of our exports, whether it's in terms of the healthy action and healthy eating plan in terms of nutritional standards, whether it's the community food strategy, whether it's the 'Food Matters' document that brings a lot of this together, the strategy is already there, the actions are being delivered."*[23]

## Strategaeth Bwyd Cymunedol

**24.** Cyhoeddwyd Strategaeth Bwyd Cymunedol Llywodraeth Cymru ar 29 Ebrill 2025.[24] Mae cyhoeddi'r strategaeth yn ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae ei gweledigaeth fel a ganlyn:

> *"Gweithio mewn partneriaeth i hyrwyddo a chryfhau'r system fwyd leol a chymunedol yng Nghymru; cynyddu argaeledd bwyd lleol, iachach a chynaliadwy a'r defnydd ohono; ac ysbrydoli gwelliannau o ran llesiant yn ein cymunedau."*

**25.** Mae chwe phrif amcan i'r strategaeth:

[21] Tystiolaeth ysgrifenedig, Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, ac Our Food 1200
[22] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 85
[23] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 86
[24] Bwyd a Diod Cymru: Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru

1. Sicrhau meddwl strategol ac arweinyddiaeth ar y cyd. Gan gynnwys sefydlu grŵp cynghori gweinidogol i gyflawni uchelgeisiau'r strategaeth, a chefnogi cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i ymgorffori bwyd fel blaenoriaeth.

2. Galluogi cydlynu a gweithredu systemau bwyd lleol. Annog mentrau bwyd lleol a chymunedol i fynd i'r afael â hyfywedd, creu cyfleoedd cadwyn gyflenwi newydd a gwella gwytnwch systemau bwyd lleol. Mae hyn yn cynnwys dyrannu £2 filiwn ar gyfer Partneriaethau Bwyd Lleol yn 2025-26.

3. Cryfhau gwydnwch bwyd yn ein cymunedau. Helpu i fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â bwyd sy'n wynebu cymunedau, megis mynd i'r afael â thlodi bwyd, salwch sy'n gysylltiedig â deiet a lleihau gwastraff bwyd.

4. Creu cymunedau bwyd cydlynol. Dod â budd o ran cynhwysiant cymdeithasol, a lles meddyliol a chorfforol trwy fentrau bwyd cymunedol.

5. Galluogi rhwydweithiau cyflenwi lleol cryfach ac amrywiol. Sicrhau bod mwy o fwyd a brynir yng Nghymru yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru drwy adeiladu capasiti ar gyfer busnesau bwyd a diod yng Nghymru, cynyddu cyfleoedd yn y farchnad ar draws manwerthu, gwasanaethau bwyd a lletygarwch, a chaffael yn y sector cyhoeddus. Nod y strategaeth yw cynyddu gwariant sector cyhoeddus Cymru ar fwyd Cymreig o leiaf 50 y cant erbyn 2030.

6. Galluogi tyfu cymunedol a garddwriaeth. Cynyddu cynhyrchiant bwyd lleol yng Nghymru, drwy gefnogi tyfu cymunedol a garddwriaeth ar raddfa fach yng Nghymru.

**26.** Nododd Puffin Produce fanteision y Strategaeth, ond fe wnaethant ychwanegu yr hoffen nhw weld model economaidd o'r hyn y bydd yn ei gostio, a sut y daw'n hunangynhaliol, dros amser, yn economaidd.[25]

**27.** Cytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru y byddai'r Strategaeth Bwyd Gymunedol yn elwa o ddeall y gwahanol haenau o

[25] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 36

lywodraethu a lleolrwydd, a deall yr hyn y gellir ei wneud, a'r hyn na ellir ei wneud, ar y naill lefel na'r llall".[26]

**28.** Yn ystod gwaith craffu'r Pwyllgor hwn ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrth y Pwyllgor:

> *"I and my Cabinet Secretary colleague Jane Hutt have co-funded local food partnerships. Now, some of the potential within that is actually to drive, with the more mature local food partnerships, things such as harvesting, collection, cleaning, whatever, of local food stuff, so we can drive local food supply chains. But we're not doing it entirely ourselves. This is money we put in this space for people on the ground, in an expert way, to co-ordinate activity, to bring partnerships together and bring more quantum in. That's a really efficient way of using public funding."*[27]

**29.** Yn y sesiwn honno, dywedodd un o swyddogion y Dirprwy Brif Weinidogion wrth yr Aelodau mai'r brif gyllideb ar gyfer cyflawni'r strategaeth fwyd gymunedol yw'r cynllun Partneriaeth Bwyd Lleol, a'u bod wedi dyrannu £1.315 miliwn o refeniw a £400,000 o gyfalaf ar ei chyfer.[28] Aeth y Dirprwy Brif Weinidog ymlaen i esbonio mai'r hyn nad ydynt yn ei wneud yw glasbrint o ddweud 'dyma'r arian hwn yn benodol ar gyfer golchi a didoli llysiau.' Yn hytrach, maen nhw'n dweud, 'mae angen i hyn gael ei yrru'n lleol.' Aeth ymlaen i ddweud bod angen i hyn gael ei lywio gan eu hadnabyddiaeth o'r hyn y gallant ei wneud a'u hanghenion yn yr ardal. Ond nid un ffynhonnell ariannu mohoni. Mae yna sawl ffordd y gall hyn ddod at ei gilydd, yn ôl y Dirprwy Brif Weinidog. Dywedodd mai'r hyn y mae partneriaethau bwyd lleol yn ei wneud yw helpu i ddwyn hynny at ei gilydd.[29]

## Ein barn ni

Yng ngwanwyn 2023, bu'r Pwyllgor hwn yn cynnal gwaith craffu ar Fil Bwyd (Cymru). Roedd y Bil yn nodi fframwaith llawn dychymyg ac eang ei gwmpas a fyddai'n diwygio system fwyd Cymru. Er na allem ddod i farn ynghylch a oedd

---

[26] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 184
[27] Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 24
[28] Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 162
[29] Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig, 26 Tachwedd 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 185

angen deddfwriaeth i weithredu'r dyhead hwn, fe wnaethom gefnogi bwriad polisi'r Bil. Syrthiodd y Bil yng Nghyfnod 1 ac ni ddaeth yn gyfraith.

Yn ein hadroddiad ar y Bil, fe wnaethom alw am i nifer fawr o'i amcanion gael eu dwyn ymlaen drwy ddulliau eraill, hyd yn oed pe bai'r Bil yn syrthio. Roedd argymhelliad dau yn yr adroddiad yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau polisïau sy'n ymwneud â'r system fwyd, gan sicrhau eu bod yn gydgysylltiedig ac yn ategu ei gilydd. Fe wnaethom, hefyd, alw am gyflwyno strategaeth fwyd.

Roedd mwyafrif helaeth y rhanddeiliaid y clywsom ganddynt yn ystod ein gwaith craffu ar y Bil o blaid Llywodraeth Cymru yn datblygu a gweithredu strategaeth fwyd gyfannol gyffredinol ar gyfer y system fwyd yng Nghymru. Roedd hyd yn oed rhai rhanddeiliaid, nad oeddent yn cytuno bod angen Bil, yn cefnogi'r angen am strategaeth gyffredinol.

Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gawsom yn yr ymchwiliad hwn fod teimlad cryf ymhlith rhanddeiliaid bod angen i bolisi bwyd fod yn fwy cydgysylltiedig. I'r perwyl hwn rydym yn ailbwysleisio ein galwad i Lywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth fwyd gyfannol gyffredinol.

Fel rhan o'r gwaith hwnnw, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ei pholisi bwyd yn cyd-fynd â pholisïau ehangach y Llywodraeth gan gynnwys ar gynaliadwyedd. Rydym yn cefnogi galwadau gan randdeiliaid bod angen i'r Weledigaeth gyd-fynd â sero net. Fodd bynnag, fel y trafodwyd yn fanwl yn adran cig coch yr adroddiad hwn, rhaid i'r aliniad hwnnw sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r polisi yn gwneud newid gwirioneddol gadarnhaol i'n hamgylchedd a'n hinsawdd, nid dim ond gwyrddgalchu a symud allyriadau oddi ar y môr.

**Argymhelliad 1.** Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru gydlynu ei dull o ran y system fwyd drwy sicrhau bod polisïau'n gydgysylltiedig, ac yn ategu ei gilydd. Rhaid i hyn sicrhau bod y sector prosesu bwyd yn cael ei chefnogi i helpu busnesau i dyfu, a sicrhau y gall darparwyr Cymru wasanaethu marchnad Cymru. I wneud hyn, rhaid iddynt greu strategaeth gyffredinol a chyfannol ar gyfer y system fwyd gyfan a gynlluniwyd i gefnogi amcanion y Weledigaeth ac alinio polisi bwyd y Llywodraeth, hyrwyddo'r sector prosesu bwyd, a blaenoriaethu cynaliadwyedd a diogelwch bwyd.

# 3. Cig Coch

**30.** Mae cig coch a chynnyrch llaeth yn sectorau cynhyrchu cynradd arwyddocaol yng Nghymru. Fodd bynnag, thema a gododd dro ar ôl tro yn ymchwiliad y Pwyllgor oedd y gostyngiad yn niferoedd y da byw yng Nghymru, a oedd yn adleisio pryderon a godwyd yn ymchwiliad blaenorol y Pwyllgor i Hybu Cig Cymru, sef y gallai'r gostyngiad yn niferoedd da byw fygwth hyfywedd lladd-dai yng Nghymru.[30]

**31.** Ym mis Mai, cyhoeddodd Pwyllgor Newid Hinsawdd annibynnol y DU (neu "*UKCCC*") ei gyngor ar osod lefel Pedwerydd Gyllideb Carbon Cymru (ar gyfer 2031-2035). Nododd hwn, er mwyn cyflawni'r lefel a argymhellir, y bydd angen i Lywodraeth Cymru gefnogi ffermwyr a chymunedau gwledig i arallgyfeirio eu hincwm i ffwrdd o dda byw a thuag at greu coetiroedd ac adfer mawndiroedd. Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"Our analysis maintains the self-sufficiency ratio of UK food consumption met by UK production. Achieving this balance requires reductions in livestock numbers, both to reduce methane emissions and to free up land for woodland creation and peatland restoration."*[31]

**32.** Mae cyngor UKCCC yn awgrymu 'llwybr cytbwys' – model o'r modd y gallai allyriadau ym mhob sector newid i gyrraedd targedau lleihau statudol. Mae ei 'lwybr cytbwys' yn rhagweld y canlynol: "Cattle and sheep numbers fall by 19% by 2033 compared to 2022 … due to changes in agricultural policy that enable livestock farmers to diversify income streams; a shift in UK-wide consumption towards lower-carbon foods, with average meat, red meat, and dairy consumption falling by 16%, 21%, and 17% respectively by 2033 compared to 2019".[32]

**33.** Mae'r cyngor yn parhau fel a ganlyn: "This reduction in meat consumption requires going beyond the existing UK long-term trend, which shows a gradual fall in consumption". Fodd bynnag, mae'n nodi bod y defnydd wedi gostwng yn fwy serth yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond ni all fod yn siŵr a yw hyn yn duedd neu a yw'n gysylltiedig â chostau byw cynyddol.[33]

---

[30] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Hyrwyddo Cig Cymru
[31] *Theccc.org.uk Climate Change Committee, Wales' Fourth Carbon Budget*
[32] *Theccc.org.uk Climate Change Committee, Wales' Fourth Carbon Budget*
[33] *Theccc.org.uk Climate Change Committee, Wales' Fourth Carbon Budget*

**34.** Dylid nodi, er bod UKCCC yn darparu cyngor, mai Llywodraeth Cymru a'r Senedd sy'n gwneud penderfyniadau ar yr union lwybr a'r polisïau i gyrraedd unrhyw dargedau. Ar 2 Rhagfyr cymeradwyodd y Senedd reoliadau a osododd lefel pedwerydd Cyllideb Carbon Cymru ar 73% yn is na'r llinell sylfaen – yn unol â chyngor UKCCC.[34]

**35.** Ar 30 Medi 2025 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y sail dystiolaeth a'r achos busnes ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.[35] Dangosodd y ffigurau ostyngiad amcangyfrifedig o 5.6 y cant mewn da byw ar sail cydymffurfio â gofynion gweithredoedd sylfaenol y Cynllun.[36]

**36.** Nododd Undeb Amaethwyr Cymru fel a ganlyn:

> *"… reductions in the critical mass of livestock has brought into question the sustainability and efficiency of red meat processing plants and the industry's ability to maintain consumer demand for Welsh products."*[37]


**37.** Awgrymodd Kepak fod effaith nifer y da byw sy'n lleihau ar allu'r sector prosesu i ychwanegu gwerth at gynnyrch Cymru yn bryder uniongyrchol a difrifol. Aethant ymlaen i ddadansoddi hyn a thynnu sylw at y materion canlynol:

- *"The efficiency and viability of our operations and the jobs that we provide rely on a critical mass of livestock to provide our raw material."*
- *"Not only do decreasing livestock numbers place pressure on the availability of the raw material but competition for that raw material across Wales increasing price volatility and makes processing and the end product to the consumer more expensive."*
- *"This not only makes it difficult to add value to PGI / UK GI Welsh Lamb and Beef – it also threatens food security"*[38].

---

[34] Rheoliadau Newid Hinsawdd (Cyllideb Garbon) (Cymru) 2025
[35] www.llyw.cymru: Cynllun Ffermio Cynaliadwy: achos busnes
[36] Llywodraeth Cymru, Amcangyfrif effeithiau economaidd posibl elfennau Camau Gweithredu Cyffredinol diwygiedig y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig, Gorffennaf 2025
[37]Tystiolaeth ysgrifenedig, Undeb Amaethwyr Cymru (Saesneg yn unig)
[38] Tystiolaeth ysgrifenedig, Kepak(Saesneg yn unig)

**38.** Mae'r tabl isod yn dangos y newid yn nifer y lladd-dai yng Nghymru ers 1995-2025:[39]




**39.** Adleisiodd Hybu Cig Cymru rai o bryderon Kepak, gan gynghori fod Cymru mewn perygl o fod yn "agos at, neu islaw" y "màs critigol" o dda byw i sicrhau "bod gan y diwydiant raddfa economaidd hyfyw".[40] Fe wnaethon nhw rybuddio fel a ganlyn:

> *"when it comes to red meat … the challenge is that, fundamentally, the number of livestock available has actually dropped significantly and is likely to carry on dropping, and that poses a big question mark about how do we carry on in the future with an industry that remains competitive."*[41]

**40.** Defnyddir cynlluniau 'y pen' gan rai llywodraethau i annog ffermio stoc da byw penodol. Mae Llywodraeth yr Alban yn cefnogi diwydiant cig eidion yr Alban trwy gynllun 'y pen' – Cynllun Cymorth Gwartheg Sugno yr Alban. Yn ôl gwasanaethau taliadau gwledig Llywodraeth yr Alban, mae'r cynllun yn helpu i gynnal gyrroedd gwartheg sugno ar lefel sy'n cynnal y diwydiant cig eidion masnachol yn yr Alban. Maent yn dweud, hefyd, y bydd y gefnogaeth a ddarperir

[39] Ffigurau gan Hybu Cig Cymru
[40] Tystiolaeth ysgrifenedig, Hybu Cig Cymru
[41] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 2 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 16

yn helpu'r manteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio yn sgil gyrroedd gwartheg sugno helaeth yn yr Alban. Mae gan y cynllun gyllideb flynyddol o £40 miliwn.[42]

**41.** Cododd Hybu Cig Cymru bryderon ynghylch y rhagdybiaeth y tu ôl i gyngor UKCCC, gan rybuddio y gallai lleihau niferoedd stoc leihau allyriadau alltraeth yn unig. Fe wnaethant ddweud wrth yr Aelodau, gan fod y defnydd o gig coch yn gymharol sefydlog, y dylem gynyddu niferoedd y stoc oherwydd y canlynol:

> "*we're very fortunate in Wales that we can actually produce livestock in a very environmentally friendly manner. Our numbers would indicate some of the top in the world, because of our weather, because of our grass, … what we should be doing, in my view, is actually say, 'We'll take that as a starting point and develop the industry forward by making sure that we're actually increasing the productivity of those farms.'* Because the moment you increase the productivity of those farms, as defined by the number of kilos per hectare, effectively you are being more friendly to the planet, and you are going to be more friendly to the planet than perhaps other places that we'll be importing meat from are or will be. And I think that would be a much more responsible position to take."[43]

**42.** Dywedodd BMPA y canlynol wrth y Pwyllgor:

> "*The reductions and the forecast reductions in livestock numbers in Wales will drastically reduce our domestic food security and make us more reliant on imported meat produced less sustainably in other parts of the world.*"[44]

**43.** Ychwanegodd BMPA fod recriwtio yn her bellach i'r diwydiant. Gwnaethant ddweud y canlynol:

> "*We're now struggling to put schemes in place that actually train people and find enough staff to work in those sorts of plants. And quite frankly, if it wasn't for the decline in livestock numbers, and*

[42] Llywodraeth yr Alban, *Rural Payments and Services*, *Scottish Suckler Beef Support Scheme*
[43] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 2 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 111-112
[44] Tystiolaeth ysgrifenedig, *British Meat Processors Association* (Saesneg yn unig)

> *therefore they've been under a lot less pressure, there would be a lot more problems in terms of actually being able to get animals off farm and get them processed."*[45]

**44.** Nododd papur y Dirprwy Brif Weinidog fod Llywodraeth Cymru "wedi ymrwymo i gefnogi cynhyrchu da byw cynaliadwy drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, sy'n anelu at gydbwyso canlyniadau amgylcheddol â chynhyrchu bwyd". Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Hybu Cig Cymru "i ddatblygu Gweledigaeth ddiwygiedig ar gyfer y sector cig coch, wedi'i hategu gan ddata a thystiolaeth gadarn".[46]

**45.** Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, cydnabu'r Dirprwy Brif Weinidog yr heriau i'r sector:

> *"… our support as Welsh Government is to work with farmers through the sustainable farming scheme and other support we do through Farming Connect—mentoring, peer-to-peer support and so on—to get to that sustainability of farming that does actually have not just the numbers of livestock, but good livestock that gives value to farmers as well, but also to work with the wider supply chain."*[47]

**46.** Wrth siarad â'r Pwyllgor mewn sesiwn graffu gyffredinol ddiweddarach, dadleuodd y Dirprwy Brif Weinidog fod y ffigurau yn achos busnes y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn fodelu economaidd da, ond mai senarios yw'r rhain, nid rhagfynegiadau. Dywedodd y canlynol:

> *"It is modelling, not actual, not real-life decisions that real farmers will make on their farms"*[48]

**47.** Mewn llythyr yn dilyn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor ar gyfer yr Ymchwiliad hwn, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog y canlynol:

---

[45] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 2 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 20
[46] Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru, Medi 2025
[47] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 118
[48] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 1 Hydref 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 118

> *"Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cyflenwad sefydlog a digonol o dda byw yn hanfodol i hyfywedd y sectorau prosesu cig coch a llaeth yng Nghymru. Datgelodd Arolwg Amaethyddol a Garddwriaethol Cymru ym mis Mehefin 2024 newidiadau nodedig i niferoedd da byw, gyda gostyngiad mewn gwartheg, defaid a moch, ond cynnydd mewn dofednod. These trends are significant in the context of climate change goals and projections for future livestock populations."*[49]

**48.** Dyfynnodd argymhelliad UKCCC, sef gostyngiad o 19% yn nifer y da byw cnoi cil a dywedodd fod hyn yn rhan o "Lwybr Cytbwys ar gyfer yr economi gyfan. Yn eu barn hwy, mae hon yn ffordd gost effeithiol sy'n cydbwyso'r angen i ddatgarboneiddio ym mhob sector o'n heconomi i raddau gwahanol. Mae'r UKCCC yn arsylwi bod y gostyngiad yn niferoedd da byw yn cael ei yrru gan rymoedd y farchnad i raddau helaeth."

**49.** Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrth yr Aelodau:

> *"Mae ystadegau diweddaraf Arolwg Mehefin ar gyfer 2024 yn cadarnhau bod niferoedd da byw yng Nghymru eisoes yn is nag amcangyfrif UKCCC ar gyfer 2025. Mae'r gostyngiad yn niferoedd da byw yn duedd ledled y DU, a bydd fy swyddogion yn parhau i fonitro iteriad nesaf Arolwg Amaethyddol a Garddwriaethol Cymru ac yn cysylltu â'r llywodraethau eraill ledled y DU drwy Grŵp Monitro Marchnad y DU.*
>
> *Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) wedi'i gynllunio i ysgogi cynhyrchu cyfrifol, sydd yn ei dro yn cefnogi'r gadwyn gyflenwi i fodloni safonau cynaliadwyedd. Mae hyn yn cynnwys cynhyrchu da byw a bydd yn ceisio ychwanegu gwerth at gynhyrchu cig coch a'i statws Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig (PGI)."*[50]

## Ein barn ni

Rydym yn falch bod y Dirprwy Brif Weinidog yn cydnabod bod cyflenwad sefydlog a digonol o dda byw yn hanfodol i hyfywedd y sectorau prosesu cig coch a llaeth yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn bryderus ynghylch y

[49] Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog at y Cadeirydd dyddiedig 18 Tachwedd 2025
[50] Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog at y Cadeirydd dyddiedig 18 Tachwedd 2025

dystiolaeth a gyflwynwyd y gallai dadstocio pellach ar ffermydd Cymru osod Cymru islaw'r màs critigol sydd ei angen i gynnal y diwydiant.

Mae lladd-dai Cymru eisoes yn dirywio. Rydym wedi gwneud y pwynt o'r blaen bod hyn yn ddrwg i'r diwydiant ac i'r anifeiliaid, gan y bydd angen eu cludo ar daith hirach i'w lladd.

Mae'r dystiolaeth a gawsom yn tynnu sylw at y ffaith, os bydd y defnydd o gig yn parhau i fod yn sefydlog, y bydd unrhyw ddadstocio yn golygu bod angen inni fewnforio cig a fwyteir yng Nghymru o leoedd â safonau llesiant is, ac ôl troed carbon uwch. Credwn nad oes fawr o bwynt i Gymru ddadstocio ffermydd mewn ymgais i gyflawni sero net, ond mewnforio cig carbon uchel ar yr un pryd.

Mae gennym ddiddordeb mewn cynlluniau 'y pen' a weithredir gan Lywodraethau eraill ac yn benodol, Cynllun Cymorth Gwartheg Sugno'r Alban. Gellid defnyddio'r rhain i atal y gostyngiad yn niferoedd stoc Cymru, a chefnogi'r diwydiant ffermio a'r proseswyr sydd angen màs critigol i aros yn hyfyw.

Mae'r adroddiad hwn yn gwneud nifer o argymhellion gyda'r nod o gefnogi marchnad brosesu bwyd fywiog yng Nghymru a all, yn ei thro, gefnogi cadwyni cyflenwi lleol cryf a gwydn, ac annog defnydd domestig o gynnyrch domestig. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall gefnogi lladd-dai a chynhyrchwyr bwyd Cymru i sicrhau y gellir gweini cig Cymru sy'n gymharol garbon isel ar blatiau Cymru, ac osgoi'r sefyllfa lle rydym yn dadstocio ffermydd Cymru ond yn mewnforio cig o ansawdd is, llesiant is a charbon uwch.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ystyried sut y gall gefnogi lladd-dai a chynhyrchwyr bwyd Cymru i sicrhau y gellir gweini cig Cymru sy'n gymharol garbon isel ar blatiau Cymru, er mwyn osgoi dadstocio ffermydd Cymru, ond mewnforio cig o ansawdd is, llesiant is a charbon uwch. Dylent roi cryn ystyriaeth i ddwysedd stocio ffermydd da byw Cymru, ac ystyried cyflwyno cynllun 'y pen' tebyg i Gynllun Cymorth Gwartheg Sugno yr Alban.

# 4. Garddwriaeth

**50.** Dywedodd y Comisiwn Bwyd, ffermio a Chefn Gwlad wrth y Pwyllgor fod heriau clir o amgylch gwydnwch yn y sector garddwriaeth.[51] Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig gyda Chynghrair Polisi Bwyd Cymru, gwnaethant ddweud y canlynol:

> *"Horticulture presents the greatest opportunity for processing sector growth, addressing both climate objectives and food security. Current barriers include planning system complexity, limited processing infrastructure, and market access challenges. Wales has potential to increase domestic vegetable production dramatically, with Food Policy Alliance Cymru targeting 75% of recommended vegetable consumption produced sustainably in Wales by 2030."*[52]

**51.** Nododd Dr Siobhan Maderson, Partneriaeth Polisi ac Arloesedd Lleol ar gyfer Cymru Wledig ("LPIP"), Prifysgol Aberystwyth, y canlynol: "pro-active government support for scaling up horticultural production and processing will be necessary for the sector to meet its potential".[53] Nododd Dr Maderson, hefyd, y byddai hyfforddiant a chefnogaeth wedi'u targedu i gynhyrchwyr yn eu galluogi i elwa o newidiadau mewn polisïau caffael, o ystyried bod y setiau sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cynhyrchiant garddwriaethol yn wahanol iawn i'r rheini sydd eu hangen i lywio gwefannau a systemau caffael y llywodraeth.[54]

**52.** Tynnodd Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol sylw at y ffaith bod elfen "cynnyrch gwerth ychwanegol" i brosesu, ac elfen "addas i'r defnyddiwr". Ar gyfer fentrau garddwriaeth bach, gall y maes olaf hwn fod yn rhwystr – yn enwedig ar gyfer cael mynediad at farchnadoedd mawr fel y sector cyhoeddus, yn ôl Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol. Fe wnaethant egluro fel a ganlyn:

> *"We need investment in localised primary processing and storage equipment such as washing, dicing and, cold storage and packing equipment. This doesn't have to be expensive, but it does have to be*

[51] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 103
[52] Tystiolaeth ysgrifenedig, Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad a Chynghrair Polisi Bwyd Cymru (Saesneg yn unig)
[53] Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Siobhan Maderson, Partneriaeth Polisi ac Arloesedd Lleol ar gyfer Cymru Wledig ("LPIP"), Prifysgol Aberystwyth
[54] Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Siobhan Maderson, Partneriaeth Polisi ac Arloesedd Lleol ar gyfer Cymru Wledig ("LPIP"), Prifysgol Aberystwyth

> *joined up and the financial burden cannot be placed on individual growers/farmers. There is a clear case for the benefit of relatively low levels of investment in shared equipment and infrastructure for delivering diversified primary production, processing, aggregation and distribution to strengthen short supply chains.”*[55]

**53.** Cafwyd yr enghraifft ganddynt o brynu peiriant golchi casgenni a oedd, wedyn, yn galluogi ysgolion i brynu moron gan dyfwyr lleol.[56] Fe ddwedon nhw y byddai mwy o brosesu lleol yn caniatáu bwyta tymhorol mwy cynaliadwy, sy’n dwyn mwy o amrywiaeth yn naturiol i’r plât cyhoeddus.

**54.** Siaradodd Puffin Produce am y buddsoddiadau seilwaith ar raddfa fwy sydd eu hangen, gan awgrymu fod angen mwy o dai gwydr i sicrhau cynhyrchu drwy gydol y flwyddyn. Fe wnaethon nhw ddweud y canlynol wrth yr Aelodau:

> *“We have got good light sources, good light quality in Wales. If you can site something like that next to a power station that is producing waste heat or these types of things, I think that Welsh Government could have a role in that, in that planning infrastructure. Why can’t you put a 20 hectare greenhouse next to a power plant somewhere that would produce enough tomatoes and cucumbers and peppers for Wales all year around?”*[57]

**55.** Cadarnhaodd tystiolaeth ysgrifenedig y Dirprwy Brif Weinidog fwriad Llywodraeth Cymru i dyfu’r sector garddwriaeth fel cyfle hyfyw ar gyfer defnydd tir a phrosesu, a nododd fod rhagor o gefnogaeth yn cael ei hystyried i fynd i’r afael â heriau systemig.[58] Dywedodd wrth y Pwyllgor fod rhan o’r gwaith sy’n mynd rhagddo i helpu i dyfu’r sector yn “well canllawiau cynllunio i hwyluso’r gwaith o ddatblygu safleoedd prosesu sy’n gysylltiedig â garddwriaeth”.[59]

**56.** Tynnodd y Dirprwy Brif Weinidog sylw at gamau gweithredu penodol sy’n canolbwyntio ar y sector, gan gynnwys y canlynol:

---

[55] Tystiolaeth Ysgrifenedig, Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol
[56] Tystiolaeth Ysgrifenedig, Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol
[57] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 98
[58] Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru, Medi 2025
[59] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 194

- 335 o sesiynau cymorth un-i-un wedi'u hariannu'n llawn gyda busnesau garddwriaethol, ar bethau fel cynllunio cnydau, rheoli plâu, iechyd y pridd ac arallgyfeirio;
- 841 o leoedd cwrs ar gyfer gweithwyr proffesiynol garddwriaethol yng Nghymru, gweithdai arbenigol, diwrnodau hyfforddi, ymweliadau astudio, a gweminarau;
- 20 rhwydwaith tyfwyr bellach wedi'u creu.[60]

## Ein barn ni

Gan fod ffermio yng Nghymru yn cael ei ddominyddu gan dda byw, mae'r systemau a'r seilwaith yn canolbwyntio'n bennaf ar gefnogi'r rhan honno o'r diwydiant. Mae hyn yn creu heriau i'r sector garddwriaeth. Fodd bynnag, gan ei fod yn ddiwydiant cymharol fach, mae hyn yn golygu bod ganddo lawer o le i dyfu ac mae angen cyflymu hynny, bellach.

Rydym yn cefnogi galwadau Cynghrair Polisi Bwyd Cymru i 75% o lysiau a fwyteir yng Nghymru gael eu cynhyrchu yma mewn modd cynaliadwy. Rydym o'r farn y byddai gwneud hynny'n ymrwymiad gan y Llywodraeth yn gam cryf i gefnogi diogelwch bwyd a chynaliadwyedd amgylcheddol.

Bydd cyflawni'r targed hwn yn gofyn am ymdrech gydlynol. Er enghraifft, tynnodd rhanddeiliaid sylw at y ffaith bod garddwriaeth yn gofyn am sgiliau penodol. Mae hyn yn golygu bod angen cynnig hyfforddiant i helpu pobl i ymuno â'r farchnad, neu i helpu pobl i symud neu ehangu o dda byw i arddwriaeth.

Mae yna heriau a chyfleoedd, eto, o amgylch datblygu seilwaith i gefnogi'r diwydiant garddwriaeth. Mae'r seilwaith hwnnw'n fwy na thwneli polythen yn unig; mae'n cynnwys cyfleusterau golchi, torri a storio. Roedd gyda ni ddiddordeb mewn arloesiadau megis defnyddio gwres sy'n cael ei wastraffu ar hyn o bryd i alluogi tyfu planhigion yn ein tai gwydr drwy gydol y flwyddyn. Mae gwella seilwaith prosesu bwyd, yn fwy eang, wedi'i gynnwys yn adran Cymorth Busnes yr adroddiad hwn, ond rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru wneud ymdrech benodol i wella ein seilwaith garddwriaeth.

[60] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 195-197

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu targed uchelgeisiol Cynghrair Polisi Bwyd Cymru, sef bod 75% o lysiau a fwyteir yng Nghymru yn cael eu cynhyrchu yma, ac yn gynaliadwy. I gyflawni hyn, rhaid i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mewn busnesau garddwriaethol, cefnogi datblygiad sgiliau garddwriaethol a gwneud ymdrech benodol i wella seilwaith prosesu bwyd garddwriaethol.

# 5. Bwyd y môr

**57.** Amlinellodd tystion yr her nad yw bwyd y môr sy'n cael ei ddal oddi ar arfordir Cymru yn cael ei fwyta yng Nghymru, i raddau helaeth. Dywedodd UK Hospitality wrth yr Aelodau:

> *"Have you had a whelk this year to eat, for instance? And I could also ask you how many prawns you've eaten in the last month. And that is exactly the problem with the Welsh seafood industry, that we produce a lot of a type of seafood that local people don't want, particularly, to buy and eat, and the things that they do want to buy and eat we don't produce, because the waters around Wales are colder, in the main. Sea bass is available for those that want it, but, then, if anybody wants to buy other fish, that becomes imported as well."*[61]

**58.** Aethant ymlaen i ddweud bod y diwydiant lletygarwch yn cael ei arwain gan gwsmeriaid ar bob adeg, felly mae angen i'r galw sy'n cael ei arwain gan gwsmeriaid newid, os yw cynnyrch lleol bwyd y môr i gael ei werthu yng Nghymru. Awgrymodd Dr Robert Bowen y canlynol:

> *"The supply and demand element, when it comes to the seafood industry in Wales … Maybe it comes from changing the culture early on and maybe introducing foods within schools, I think.* There's some evidence to suggest that when you introduce foods to younger children then it stays with them for longer, whereas if you don't get exposed to foods at a certain age then maybe it becomes a bit of a barrier to what you might want to eat then. So, changing that culture starts early, and providing access to schools to foods like these may be a way in which we can encourage people to develop their culture for food in a different way."[62]

[61] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 33
[62] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 112

## Ein barn ni

Mae Cymru yn cynhyrchu bwyd y môr o ansawdd uchel sy'n cael ei werthfawrogi mewn rhannau eraill o'r byd. Ni chawsom ddigon o dystiolaeth ar fwyd y môr, felly mae hwn yn faes y dylai un o bwyllgorau'r Senedd yn y dyfodol ei archwilio. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol, fel poblogaeth, mai prin iawn yw'r hyn a fwytawn o fwyd y môr, sef rhywbeth rydym wedi'i fendithio ganddo. Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn gofyn am rywfaint o newid cymdeithasol hirdymor. Fodd bynnag, rhaid i Lywodraeth Cymru chwarae rhan allweddol yn y broses o wneud i hyn ddigwydd. Hoffem i Lywodraeth Cymru chwarae rhan allweddol yn y broses o newid arferion bwyta Cymru, fel rhan o'r angen yn fwy eang i fynd i'r afael â gordewdra. Mae cynyddu faint o fwyd y môr o Gymru sydd ar fwydlenni ysgolion yn un ffordd o gyflawni hyn.

Dylai'r Pwyllgor sy'n olynu'r un hwn ystyried archwilio sut y gellir cynyddu faint o Fwyd y Môr o Gymru sy'n cael ei brosesu, ei werthu a'i fwyta yng Nghymru, gan gynnwys cynyddu faint o fwyd y môr o Gymru a gynigir ar fwydlenni ysgolion.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi unrhyw waith y mae wedi'i wneud i gefnogi diwydiant prosesu bwyd y môr o Gymru, ac i annog bwyta bwyd y môr o Gymru ar lefel ddomestig.

# 6. Cymorth i fusnesau

**59.** Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth busnes i fusnesau bwyd a diod mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys y canlynol:

- Grantiau a chymorth technegol / arloesi – Arloesi Bwyd Cymru a Phrosiect Helix;
- cefnogaeth fasnachol – Cywain a rhaglenni cymorth allforio;
- hyfforddiant – Sgiliau Bwyd a Diod Cymru;
- mewnwelediad i'r farchnad a ffocws arni, rhwydweithio a chlystyru busnesau; a hefyd
- datblygu busnesau a digwyddiadau masnach – y Rhaglen Datblygu Masnach a Blas Cymru.

**60.** Tynnodd Dr Robert Bowen sylw at ymchwil diweddar sy'n cymharu gwydnwch busnesau bach a chanolig (SMEs) yn Seland Newydd a Chymru yn ystod y pandemig. Nododd fod busnesau yng Nghymru wedi cael mwy o gefnogaeth, gan arwain ymchwilwyr i'r casgliad bod gwydnwch busnesau bach a chanolig yn Seland Newydd yn fwy o ganlyniad penderfyniadau rheoli o fewn y busnes ac ailgyfansoddi adnoddau'r busnes, tra yng Nghymru, roedd busnesau'n fwy dibynnol ar gefnogaeth. Ychwanegodd fel a ganlyn:

> *"The lessons from the resilience research underline that support structures need to be in place to ensure that Welsh SMEs operate in the right environment to enable them to survive and look to thrive beyond this."*[63]

**61.** Roedd FDF Cymru yn canmol strategaethau cymorth busnes Llywodraeth Cymru, yn enwedig y sioeau masnach. Nododd Dr Robert Bowen fod busnesau yr oedd wedi siarad â nhw yn gadarnhaol ynglŷn â'r gwaith hwn gan Lywodraeth Cymru. Awgrymodd y gellid ehangu cefnogaeth i fusnesau eraill lle gellid datblygu cyfleoedd ar gyfer allforio. Fodd bynnag, dywedodd fod busnesau'n

[63] Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Robert Bowen, Ysgol Fusnes Caerdydd (Saesneg yn unig)

hapus i gynnal y math o lefel o weithgarwch sydd ganddyn nhw, a bod angen newid diwylliannol i annog busnesau i dyfu.[64]

**62.** Dywedodd Puffin Produce, er y gallai'r dirwedd cymorth busnes ymddangos yn ddatgysylltiedig, fod pobl yn gwybod sut i'w llywio ac yn gwybod beth sydd ar gael, ac mae hyd yn oed y rheini sy'n dechrau arni yn cael ei llywio'n fuan.[65] Fodd bynnag, fe wnaethon nhw ychwanegu y gallai ymatebion i gyfleoedd fod yn rhy araf i fanteisio ar gyfleoedd:

> *"it's that kind of tailoring support, and being very quick and nimble to be able to put the support in place to support that idea, is what I think we lack."*[66]

**63.** Fe wnaethon nhw ychwanegu fod partneriaeth hirdymor gyda'r prif fanwerthwyr yn wirioneddol bwysig i amaethyddiaeth Cymru, ac er bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith da o gysylltu â manwerthwyr, mae llawer mwy y gellid ei wneud trwy helpu i sefydlu'r grwpiau hyn ar gyfer cynnyrch llaeth a chig coch, ac i gael sefydlogrwydd prisiau hirdymor sy'n caniatáu buddsoddi ar y fferm.[67]

**64.** Awgrymodd Kepak y gallai Llywodraeth Cymru wneud yn well wrth gefnogi'r sector prosesu cig coch i gynyddu gwerth ychwanegol ar gyfer cynhyrchion bwyd yng Nghymru drwy symleiddio cyllid i gefnogi effeithlonrwydd busnes, a'i gwneud yn haws i wneud cais amdano:

> *"As a company, we have invested heavily in the infrastructure at the Merthyr site and in developing accredited and nationally-recognised training schemes for our workforce. However, the timescales allowed for accessing support from Welsh Government have meant that we have been unable to benefit from timely funding and support from government Sources."*[68]

---

[64] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 54
[65] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 43
[66] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 49
[67] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 62-64
[68] Tystiolaeth ysgrifenedig, Kepak(Saesneg yn unig)

**65.** Tynnodd Puffin Produce sylw at y ffaith ei bod yn anoddach i fusnesau gael benthyciadau masnachol i dalu am fuddsoddiad cyfalaf yng Nghymru oherwydd prisiau eiddo is. Cafodd yr Aelodau enghraifft ganddynt, sef datblygu'r un ffatri yng ngorllewin Cymru neu Wiltshire:

> *"when you build a food factory in Pembrokeshire, you spend, say, £3 million on the building, and the bank come along the day it's finished and value it at £1 million. So, they will give you, then, 70 per cent, 80 per cent debt on the £1 million; they will give you £700,000 of debt on a £3 million building, because of the property values in Pembrokeshire. If you were building that in Swindon, you'd build it for £3 million, the bank would value it at £3 million, and they'd lend you 70 per cent of £3 million."*[69]

**66.** Fe egluron nhw fod hyn yn ei gwneud hi'n anodd, os nad oes arian parod o'ch cwmpas, felly os nad yw'r cymorth grant ar gael, efallai na fydd busnesau'n gallu manteisio ar unrhyw gyfleoedd a gyflwynir iddyn nhw. Aethant ymlaen i ddweud fod rhai o'r gwledydd eraill yn nodi eu busnesau blaenllaw, ac yn sicrhau eu bod yn cefnogi'r busnesau blaenllaw hynny mewn difrif, yn hytrach na gorfod aros, a gwneud cais am grantiau gyda phawb arall.[70]

**67.** Tynnodd Puffin sylw hefyd at y fantais o nodi a chefnogi busnesau sydd â photensial o ran twf:

> *"every time Puffin steps forward like this, it's creating 100 jobs at a time, and it's securing the futures of 25 farmers" … "So, it's that kind of tailoring support, and being very quick and nimble to be able to put the support in place to support that idea, is what I think we lack."*[71]

**68.** Tynnodd Puffin sylw at lwyddiant dull 'dewis enillwyr' yn Iwerddon gan ddweud bod cefnogi cwmnïau llaeth cydweithredol mawr a busnesau cig mawr yn y 1990au a dechrau'r 2000au wedi eu troi'n chwaraewyr byd-eang:

---

[69] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 48
[70] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 48
[71] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 49

> "*Bord Bia [Bwrdd Bwyd Iwerddon] … supported a number of big businesses and made them champions and really driven those big agri-food businesses.* Then, when you get to scale, you've got the flow of raw material and you've got the cash and you've got the technical know-how to get in to a more diverse range of products. Quite often then, they can be export products and these types of things."[72]

**69.** Roedd rhan o stori lwyddiant Iwerddon y cyfeiriodd Puffin ati wedi'i sbarduno gan Food Harvest 2020, cynllun datblygu Llywodraeth Iwerddon, ar gyfer diwydiannau amaethyddol a phrosesu bwyd Iwerddon. Pennodd y cynllun dargedau i bron ddyblu allforion mewn degawd, ac ailwampio'r diwydiant bwyd cyfan a'i wneud yn 'glyfar'. Mae'r cynllun yn nodi fel a ganlyn:

> *"To prosper and develop in the coming decade, the Irish agri-food and fisheries industry must itself become 'smart'. This involves developing new working relationships in the food chain, piloting new product streams, targeting its resources at new markets, enhancing levels of productivity and competitiveness, and developing leadership positions across a range of sectors."*[73]

**70.** Awgrymodd tystion fod gan Gymru nifer o fusnesau bach ond nid llawer o fusnesau canolig eu maint; 'canol coll'.[74] Nododd FERL, er bod eu hadroddiad yn 2021 wedi nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cael cyngor busnes rhagorol ar gyfer proseswyr bwyd Cymru a chefnogaeth farchnata ar gyfer bwyd Cymru, dangosodd data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a gomisiynwyd gan FERL nad oedd polisïau wedi cynyddu nifer y cwmnïau â gallu, canolig eu maint sy'n prosesu bwyd a diod dros y degawd 2010-20.[75]

**71.** Dywedodd Dr Robert Bowen fod seilwaith yn allweddol i ehangu prosiectau llwyddiannus:

> *"If we want to be more sustainable, and we want to focus on things like localised supply chains, we don't always have the infrastructure in place that will allow us to do that. … limited abattoirs, […], or food*

[72] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 19
[73] Llywodraeth Iwerddon: Food Harvest 2020
[74] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 54
[75] Tystiolaeth ysgrifenedig, Foundational Economy Research Limited (Saesneg yn unig)

> *processing plants within Wales—we often see that food needs to leave Wales in its produced format to then come back to Wales after being processed.*
>
> …
>
> *There's a lot of really good work happening … local schemes that encourage local procurement, and we're seeing small producers providing foods to local schools, hospitals, et cetera. But those are very small scale, and the big challenge would be how do we replicate that across larger parts of Wales in the way in which we want to develop these localised supply chains."*[76]

**72.** Cytunodd Dr Robert Bowen ac FFCC y gall diffyg gweithwyr medrus fod yn rhwystr i dwf busnes yn aml. Dywedodd FFCC: "You need personnel and you need individuals in these businesses with the expertise and the right expertise to exploit some of the opportunities."[77].

**73.** Tynnodd UK Hospitality Cymru sylw at faint y diwydiant lletygarwch a'i gadwyn gyflenwi:

> *"there are many different outlets of different sizes, different shapes, different business models, so you won't find a product that will satisfy all of that, because they're all different types of things. But there will be opportunities, particularly with things like the lack of indication of that, where it's a higher premium product. If you can get the supply right, then there's obviously great opportunity."*[78]

**74.** Dywedon nhw fod Cig Oen Cymru yn 'arwyddluniol'[79] ac y gellid ei ddefnyddio i hyrwyddo Cymru yn yr un ffordd ag y mae wisgi yn hyrwyddo'r Alban. Roedden nhw eisiau i fwy gael ei wneud i wthio'r ffiniau i hyrwyddo Cymru:

---

[76] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 12-13
[77] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 75
[78] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 51
[79] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 55

> *"... around this fantastic food and drink offer, and pulling people in to enjoy not only the wonderful circumstances that they can enjoy food and drink in, which is the degree of tranquillity and fantastic vistas, but you also have this great experience wherever you hit a table."*[80]

**75.** Tynnodd y Dirprwy Brif Weinidog sylw at y modd y mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn cynnig hyblygrwydd i gynnwys gwerth cymdeithasol, a fydd, yn ei farn ef, yn galluogi busnesau bach a chanolig i dyfu. Dywedodd fod ymdrechion allforio Llywodraeth Cymru, sy'n canolbwyntio ar fusnesau bach a chanolig, wedi bod yn llwyddiannus wrth gefnogi busnesau llai. [81]

**76.** Awgrymodd swyddog o Lywodraeth Cymru fod yna bum maes sy'n gwneud Cymru'n wahanol:

> *"... the cluster network; the HELIX programme, which is one vision for the food scientists throughout Wales; the market insight programme to give that level of data to the companies to get them from A to B, because they can't afford to buy that data themselves at a small, micro level; the export journey from, 'I've got an idea, I now want to export'—well, there's a journey to take; and Blas Cymru, the one-nation food approach, which is happening in a few weeks' time. ... We are refining these programmes every step of the way. If something doesn't work, we keep moving on; we don't just stick with it. And we do research and evaluation on every programme that we have."*[82]

**77.** Cytunodd y Dirprwy Brif Weinidog mai cymorth wedi'i deilwra yw'r union hyn sydd ei angen i gefnogi twf busnesau. Dywedodd y gall Llywodraeth Cymru gynnig cymorth un-i-un pwrpasol:

> *"... the cluster network is really important in this, because having that peer-to-peer involvement with our support is very, very important, and Cywain, the scale-up, the investor-ready initiative, the HELIX programme, but also that market insight programme as well. All of*

[80] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 56
[81] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 125-127
[82] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 135

> *that is based on the idea, then, that we do give support to the sector, but we also do tailor-made, bespoke support. We work with, we work in partnership with individual businesses to actually give that tailored support."*[83]

**78.** O ran sgiliau, cyfeiriodd y Dirprwy Brif Weinidog at Sgiliau Bwyd a Diod Cymru, gan gynnwys lansio hysbysfwrdd swyddi newydd, sydd bellach yn cynnwys dros 1,600 o swyddi gwag, a'i gefnogaeth i gwmnïau bwyd a diod Cymru i gael mynediad at hyfforddiant a datblygu sgiliau.[84] O ran seilwaith, dadleuodd y Dirprwy Brif Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio'n fawr ar gadwyni cyflenwi lleol.[85]

## Ein barn ni

Er bod gan Gymru ystod eang o gynhyrchwyr bwyd bach gwych, rydym yn pryderu am y 'canol coll' a hefyd sut y gall Llywodraeth Cymru gefnogi busnesau bach i dyfu. Roedd gennym ddiddordeb yn llwyddiant Food Harvest 2020 yn Iwerddon wrth 'ddewis enillwyr'. Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru archwilio sut y gall weithio i gefnogi sector bwyd cydlynol gan gynnwys cynhyrchwyr a phroseswyr, a sut y gall fod yn fwy ymatebol i gefnogi busnesau sydd mewn sefyllfa i dyfu, a chael mwy o fusnes i'r sefyllfa honno yn y lle cyntaf.

Rydym o'r farn bod cefnogaeth i seilwaith prosesu bwyd yng Nghymru yn hanfodol, a bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru weithio i ddatblygu fframwaith hanfodol y diwydiant a llenwi bylchau lle maent yn bodoli. Ar hyn o bryd mae'n rhaid i fwyd adael Cymru i gael ei brosesu, ac yna dychwelyd i gael ei werthu, sy'n golygu bod y Gwerth Ychwanegol Gros a grëir gan y prosesu yn cael ei golli i economi Cymru. Mae hynny'n gwneud y gadwyn gyflenwi yn llai gwydn ac yn creu milltiroedd bwyd ychwanegol. Gellid cysylltu gwella seilwaith â'r gefnogaeth i 'ddewis enillwyr'.

Mae'r dystiolaeth gan Puffin Produce am yr her gymharol o ddatblygu ffatrïoedd prosesu bwyd yng Nghymru oherwydd gwerth tir cymharol is yn ei gwneud yn

[83] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 142
[84] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 154
[85] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 147

ofynnol i Lywodraeth Cymru ystyried sut y gall fynd i'r afael â'r methiant hwn yn y farchnad, gan ei fod yn rhoi Cymru dan anfantais gystadleuol sylweddol.

Mae gan letygarwch gadwyn gyflenwi enfawr. Mae bwyd Cymreig o safon sy'n cael ei werthu mewn sefydliadau lletygarwch da yn ffordd wych o hyrwyddo Cymru, a chyflwyno dinasyddion Cymru i fwyd Cymreig nad ydyn nhw, efallai, wedi'i brofi o'r blaen. Gellid meithrin y dull "tîm Cymru" a awgrymwyd gan UK Hospitality Cymru rhwng cynhyrchwyr, proseswyr a'r sector lletygarwch.

Roeddem yn siomedig bod y manwerthwyr mawr wedi methu â derbyn ein gwahoddiadau i roi tystiolaeth i'r ymchwiliad hwn. Rydym yn siŵr bod lle i wella cysylltiadau rhwng y sector prosesu bwyd a manwerthu yn yr un modd ag sydd ar gyfer lletygarwch. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod tîm Cymru wrth wraidd ei chynlluniau ar gyfer y diwydiant bwyd.

Ochr yn ochr â buddsoddi mewn seilwaith, mae angen inni sicrhau bod gan Gymru'r sgiliau i brosesu bwyd a gynhyrchir yma. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod sgiliau prosesu bwyd yn cael eu datblygu fel rhan o'i gwaith ehangach i gefnogi uwchsgilio gweithwyr Cymru.

**Argymhelliad 5.** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ganddi gynllun strategol i sicrhau bod yna ddull "tîm Cymru" rhwng cynhyrchwyr, proseswyr, manwerthwyr a lletygarwch, a bod prosesu bwyd yn cael cefnogaeth gadarn a chaniatâd i chwarae ei rôl hanfodol yn yr economi sylfaenol. Fel rhan allweddol o'r gwaith hwn, dylid archwilio sut y gallant lenwi'r bwlch 'canol coll' mewn cynhyrchu bwyd yng Nghymru, ac annog ein microfusnesau rhagorol i dyfu. Fel rhan o'r gwaith hwn, dylai wneud y canlynol:

- Archwilio pa wersi y gellir eu dysgu o'r dull Gwyddelig a nodir yn Food Harvest 2020 ac o ddewis enillwyr;
- datblygu rhaglenni i helpu busnesau prosesu bwyd i uwchsgilio eu gweithwyr, ac i ganiatáu i bobl ddysgu sgiliau prosesu bwyd arloesol neu rai nad ydynt yn cael eu defnyddio i raddau digonol, er mwyn llenwi bylchau ym marchnad prosesu bwyd Cymru;
- adolygu'r seilwaith prosesu bwyd a gynigir ledled Cymru, nodi bylchau a llunio cynllun ar gyfer eu llenwi, er mwyn cryfhau cadwyni cyflenwi lleol a chynnal Gwerth Ychwanegol gros; a hefyd
- ystyried sut y gall fynd i'r afael â'r methiant yn y farchnad a berir gan brisiau eiddo cymharol is, sy'n ei gwneud hi'n anoddach i lawer o

fusnesau Cymru gael mynediad at fenthyciadau yn erbyn buddsoddiad cyfalaf yn y sector prosesu bwyd.

# 7. Caffael bwyd cyhoeddus

**79.** Mae Bwyd o Bwys: Cymru yn dweud y canlynol:

> *"Gall caffael yn y sector cyhoeddus chwarae rhan hynod bwysig wrth ail-leoli cadwyni cyflenwi bwyd. Gall datblygu cyfleoedd cadwyn gyflenwi leol i fodloni galw'r sector cyhoeddus a galw arall ychwanegu gwerth at gynnyrch Cymreig a chadw gwerth yng Nghymru".*[86]

**80.** Tynnodd Puffin Produce sylw at y rôl y gall caffael y sector cyhoeddus ei chwarae wrth gefnogi twf busnes, gan ddweud ei fod yn ffordd wych o gael busnes i dyfu:

> *"if you can start off doing 20, 30 acres of leeks into the west Wales schools, you then perhaps could get a small supermarket contract after that. If you've got an ambitious young grower who can then start to build up their cash, giving them a leg-up to start with public procurement, using public procurement has got to be one of the routes that we need to look at."*[87]

**81.** Daw bwyd o fewn cwmpas y ddyletswydd gaffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023[88] ac egwyddorion Datganiad Polisi Caffael Cymru.[89] Daeth y Ddeddf i rym ym mis Chwefror 2025.

**82.** Yn ôl y Strategaeth Bwyd Cymunedol:

> *"Ar hyn o bryd mae gan awdurdodau contractio hyblygrwydd i gynllunio prosesau caffael sy'n targedu anghenion a buddion penodol, ynghyd â gofyniad, o dan Ddeddf Caffael 2023, i ystyried y ffaith y gall mentrau bach a chanolig wynebu rhwystrau penodol i gyfranogiad, ac ystyried a ellir dileu neu leihau rhwystrau o'r fath. Pan fydd yn dod i rym, bydd y ddyletswydd gaffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus wella lles*

[86] Llywodraeth Cymru, Bwyd o Bwys: Cymru, Gorffennaf 2024
[87] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 124
[88] Llywodraeth Cymru, Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023
[89] Llywodraeth Cymru, Datganiad Polisi Caffael Cymru

> *cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, trwy gynnal caffael mewn ffordd gymdeithasol gyfrifol."*[90]

**83.** Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Strategaeth yn cyflwyno'r nod o gynyddu gwariant y sector cyhoeddus yng Nghymru ar fwyd Cymru o leiaf 50 y cant erbyn 2030.

**84.** Nododd Ffederasiwn Bwyd a Diod Cymru fel a ganlyn:

> *"… the public procurement in Wales amounts to around £96 million per year from a sectoral turnaround of £9.3 billion. So, relatively, its value is quite small to the size of our industry."*[91]

**85.** Cydnabu Undeb Amaethwyr Cymru fod caffael cyhoeddus yn cynrychioli canran gymharol fach o drosiant y diwydiant, ond awgrymodd fod gan bob adran o'r Llywodraeth a chorff cyhoeddus ddyletswydd i arwain trwy esiampl, drwy gefnogi diwydiant ffermio a bwyd Cymru.[92]

> *"The local procurement of food through establishments such as schools provides an opportunity for authorities to shorten supply chains, support the high environmental and animal welfare standards Welsh farmers must adhere to, and bolster circular economies while avoiding the implications of cheaper food imports on public health and the environment."*[93]

**86.** Dywedodd Dr Amanda J Lloyd a Dr Alina Warren Walker o Brifysgol Aberystwyth fod y rhwystrau i gynyddu caffael cyhoeddus yn cynnwys y canlynol: "Lack of awareness of innovative Welsh-processed ingredients among procurement officers; perceived risk and cost of adopting new products in public sector catering; and insufficient processing scale to meet consistent supply demands"[94].

[90] Bwyd a Diod Cymru: Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru
[91] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 76
[92] Tystiolaeth ysgrifenedig, Undeb Amaethwyr Cymru (Saesneg yn unig)
[93] Tystiolaeth ysgrifenedig, Undeb Amaethwyr Cymru (Saesneg yn unig)
[94] Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Amanda J Lloyd a Dr Alina Warren Walker, Prifysgol Aberystwyth(Saesneg yn unig)

**87.** Dywedodd Puffin Produce y gellid cynyddu caffael cyhoeddus gyda gwell dealltwriaeth a defnydd o ddeddfwriaeth caffael cyhoeddus, a hefyd, y canlynol:

> "… *there need to be the skills in the schools, in the kitchens, and the procurement needs to be more live, really. I think the procurement regulations are so stiff now, everybody's frightened of judicial reviews and there's nobody with a lot of common sense any more that can just go, 'Yes, we'll take that product for six months and we'll make it work at that amount of money, and then we'll go on to this product.' You know, there has to be the freedom within the system to do that.*"[95]

**88.** Dywedodd Puffin Produce hefyd fod angen i gaffael fod yn 'fwy byw':

> "*Procurement … has become a very bureaucratic process now that kind of almost has the opposite effect, in my mind, of moving us away. We need to be able to give people power to be able to go out there and sort this out and procure products at a sensible price in a live way.*"[96]

**89.** Dywedodd Puffin Produce hefyd: "*The Welsh Government surely could be able to lead that and put those guidelines down to NHS Wales or the councils … who then are actually procuring the food on the ground*"[97].

**90.** Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi nodi'r ffyrdd y maen nhw'n cefnogi busnesau a chynhyrchwyr bwyd lleol, gan gynnwys drwy gynnal prosesau teg a di-wahaniaethol, drwy ddeall rhwydweithiau dosbarthu lleol, a thrwy gydweithio â Llywodraeth Cymru, drwy Fusnes Cymru, i baru busnesau lleol â chyfleoedd tendro.[98] Fodd bynnag, nodwyd fel a ganlyn bod heriau'n bodoli i gaffael cynnyrch Cymreig:

> "*Some of the barriers along that supply chain are our ability afterwards, for example, abattoirs, which might come up later, dairies,*

[95] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 78
[96] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 78
[97] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 19 Mehefin 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 82
[98] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraffau 136-138

> *vegetable storage and processing, which aren't necessarily there to allow Welsh produce to remain in Wales and to be used in Wales."*[99]

**91.** Tynnodd sawl tyst sylw at lwyddiant cynllun Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion fel enghraifft dda o gaffael llwyddiannus. Croesawodd Cymdeithas y Pridd gymeradwyaeth a chefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r cynllun, a dywedodd Dr Siobhan Maderson y canlynol wrth y Pwyllgor:

> *"The work of Welsh Veg in Schools (WViS) is exemplar in this field. Concrete support from the Welsh Government can support its expansion to meet its goal of 25% of all food in Wales's primary schools to be locally, organically produced by 2030."*[100]

**92.** Nododd Dr Robert Bowen y canlynol: "The small scale nature of the sector in Wales means that local food miles can be promoted, with local foods being used to supply local customers". Tynnodd sylw at fentrau llwyddiannus yng Nghymru, gan gynnwys gwaith Synnwyr Bwyd Cymru, ond ychwanegodd mai un mater pwysig yw gweld sut y gellid ehangu'r mentrau hyn ar lefel ranbarthol neu genedlaethol.[101]

**93.** Roedd papur y Dirprwy Brif Weinidog yn cydnabod yr her o ehangu cynlluniau peilot llwyddiannus yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, fel a ganlyn:

> *"Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull strategol o fynd i'r afael â rhwystrau i gaffael cyhoeddus bwyd wedi'i brosesu yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar seilwaith, arloesi, achredu a diwygio caffael.*
>
> *Mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar fyrhau cadwyni cyflenwi a lleihau dibyniaeth ar fewnforion drwy gynyddu faint o fwyd Cymru sy'n cael ei weini mewn ysgolion ac ysbytai. Mae prosiectau a ariennir trwy'r rhaglen Economi Sylfaenol wedi helpu i feithrin cysylltiadau*

---

[99] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 148
[100] Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Siobhan Maderson, Partneriaeth Polisi ac Arloesedd Lleol ar gyfer Cymru Wledig ("LPIP"), Prifysgol Aberystwyth
[101] Tystiolaeth ysgrifenedig, Dr Robert Bowen, Ysgol Fusnes Caerdydd (Saesneg yn unig)

> *cryfach rhwng tyfwyr, proseswyr, cyfanwerthwyr, a phrynwyr sector cyhoeddus."*[102]

**94.** Mewn llythyr yn dilyn y sesiwn, tynnodd y Dirprwy Brif Weinidog sylw at rôl y Strategaeth Bwyd Cymunedol wrth hyrwyddo cynhyrchu bwyd lleol. Dywedodd fod y Strategaeth yn ymrwymo i "gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer caffael bwyd lleol". Esboniodd y canlynol o ran y Strategaeth:

> *"Cefnogir hyn gan becyn cyllid traws-bortffolio o dros £2 filiwn ar gyfer Partneriaethau Bwyd Lleol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025-2026. Mae'r Partneriaethau Bwyd Lleol hyn bellach wedi'u sefydlu ym mhob Awdurdod Lleol yng Nghymru a byddant yn darparu cydlyniad strategol mawr ei angen ar brosiectau bwyd lleol 'ar lawr gwlad'. Byddant yn creu cyfleoedd cyflenwi newydd trwy gysylltu rhanddeiliaid bwyd lleol – gan gynnwys cynhyrchwyr, busnesau, cyfanwerthwyr a gwasanaethau sector cyhoeddus."*[103]

## Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

**95.** Awgrymodd Iechyd Cyhoeddus Cymru y byddai Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 ("y Ddeddf") yn fuddiol oherwydd ei bod yn mynd i'r afael â rhai o'r heriau yn sgil yr hen system, lle mai'r unig beth oedd yn bwysig, yn y bôn, oedd y pris".[104]

**96.** Nododd Hybu Cig Cymru fod y Ddeddf "yn rhoi mwy o bwyslais ar werth cymdeithasol nag yn y gorffennol yn hytrach na'r tendr mwyaf manteisiol yn economaidd a ddylai ddarparu cyfleoedd ychwanegol i gig coch o Gymru ymuno â chaffael cyhoeddus"[105].

**97.** Cytunodd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y byddai angen cefnogaeth a chanllawiau clir i helpu sefydliadau i gydymffurfio â gofynion y Ddeddf. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y canlynol wrth y Pwyllgor:

---

[102] Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru, Medi 2025
[103] Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog at y Cadeirydd dyddiedig 18 Tachwedd 2025
[104] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 165
[105] Tystiolaeth ysgrifenedig, Hybu Cig Cymru

> *"I think we need to be clear that the social partnership and public procurement Act is a duty and it's enacted in law. It will be insufficient to issue guidance that is less than that, by which I mean we need to know exactly what our legal obligations are, very clearly, without ambiguity. Guidance on policy and good practice can accompany it and it will be welcomed, but I think, more importantly, that guidance is something that we can work through together in that collaborative social partnership way, but the legal guidance, where it is ultimately most important, is that it needs to be about a law and what is written in a law, so that we, and other public sector bodies, know what is complying and what isn't and we can be clear about that."*[106]

**98.** Mae papur y Dirprwy Brif Weinidog yn tynnu sylw at y Ddeddf, a Deddf Caffael 2023, sy'n anelu at "gefnogi cadwyni cyflenwi lleol i gynyddu faint o fwyd a diod Cymru a brynir"[107]. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod y Ddeddf, bellach, wedi rhoi llawer mwy o hyblygrwydd o fewn y system gaffael i ystyried gwerth cymdeithasol yn ogystal â'r meddwl mwy cul, cyfyngedig a arferai fod.[108]

**99.** Mewn llythyr dilynol, dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog wrth yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru yn gweithio ar Ganllawiau Statudol a fydd yn sail i'r Ddeddf ac yn cefnogi cyrff cyhoeddus i gyflawni eu cyfrifoldebau newydd. Dywedodd y bydd yn darparu "arweiniad ymarferol ar gyflawni canlyniadau llesiant drwy'r broses gaffael" ac y byddai Llywodraeth Cymru "yn gweithio gyda chyrff cyhoeddus, partneriaid cymdeithasol, gweithwyr proffesiynol caffael ac eraill i gefnogi ei weithredu a'i gyflawni'n effeithiol"[109].

## Ein barn ni

> Er ein bod yn sylweddoli bod caffael cyhoeddus yn farchnad fach iawn o'i gymharu â'r marchnadoedd manwerthu a lletygarwch ehangach, mae'n amlwg o'r dystiolaeth y gall contractau cyhoeddus fod yn ffynhonnell incwm ddibynadwy i fusnesau sy'n tyfu. Mae hefyd yn bwysig ein bod yn annog y sector cyhoeddus i gaffael yn lleol gan fod hyn yn cefnogi'r economi sylfaenol a'r holl fuddion sy'n dod gyda hi.

[106] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Gorffennaf 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 166
[107] Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru, Medi 2025
[108] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 24 Medi 2025, Cofnod y Trafodion, paragraff 126
[109] Llythyr oddi wrth y Dirprwy Brif Weinidog at y Cadeirydd dyddiedig 18 Tachwedd 2025

Mae'n amlwg bod yna bocedi o arfer da ledled Cymru, yn enwedig y fenter Llysiau Gymru ar gyfer Ysgolion, a amlygwyd gan sawl tyst fel enghraifft ardderchog o'r gwaith y gellir ei wneud a'r manteision y gellir eu dwyn drwy ddefnyddio cadwyn gyflenwi leol. Mae angen ehangu'r pocedi hyn. Mae'n ymddangos bod Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn gyfle da i gefnogi datblygiad pellach yr arfer da hwn ac i annog y sector cyhoeddus i ddefnyddio bwyd lleol.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru ehangu cynlluniau llwyddiannus sy'n cefnogi caffael cyhoeddus, ac yn integreiddio prynwyr y sector cyhoeddus i gadwyni cyflenwi lleol, er mwyn gwireddu amcanion Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).

# Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **19 Mehefin 2025** | **Huw Thomas, Prif Swyddog Gweithredol,** Puffin Produce a Hufenfa Sir Benfro<br>**David Harries, Pennaeth,** Ffederasiwn Bwyd a Diod Cymru |
| **2 Gorffennaf 2025** | **John Thorley, Cadeirydd,** Association of Independent Meat Suppliers<br>**Nick Allen, Prif Swyddog Gweithredol,** British Meat Processors Association<br>**José Peralta, Prif Swyddog Gweithredol,** Hybu Cig Cymru |
| **9 Gorffennaf 2025** | **Dr Robert Bowen, Uwch-ddarlithydd mewn Entrepreneuriaeth Ryngwladol,** Ysgol Fusnes Caerdydd, Prifysgol Caerdydd<br>**Jon Parker, Cyfarwyddwr Cymru,** y Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad<br>**Dr Julie Bishop, Cyfarwyddwr Gwella Iechyd,** Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>**Y Cynghorydd Mary Ann Brocklesby, Arweinydd Cyngor Sir Fynwy a Llefarydd Materion Gwledig,** Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) |
| **24 Medi 2025** | **David Chapman, Cyfarwyddwr Gweithredol,** UKHospitality Cymru<br>**Huw Irranca-Davies AS, Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig,** Llywodraeth Cymru<br>**Gian Marco Currado, Cyfarwyddwr – Materion Gwledig,** Llywodraeth Cymru |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| | **Keith Smyton, Dirprwy Gyfarwyddwr – Is-Adran Bwyd,** Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion ir ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **FP 01** | Prifysgol Aberystwyth |
| **FP 02** | British Meat Processors Association |
| **FP 03** | Hybu Cig Cymru |
| **FP 04** | Foundational Economy Research Limited (FERL) |
| **FP 05** | Cymru Wledig LPIP Rural Wales (LPIP), Prifysgol Aberystwyth |
| **FP 06** | Canolfan Diwydiant Bwyd ZERO2FIVE , Prifysgol Metropolitan Caerdydd |
| **FP 07** | Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, a Our Food 1200 |
| **FP 08** | Kepak |
| **FP 09** | Soil Association Cymru |
| **FP 10** | Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad, a Cynghrair Polisi Bwyd Cymru |
| **FP 11** | Ysgol Busnes Caerdydd |
| **FP 12** | Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) |
| **FP 13** | CFfI Cymru |